Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

Adroddiad (SLC (3)-24-09)

Dyddiad: 4 Tachwedd 2009
Amser: 9.30
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 4, Tŷ Hywel

CYNNWYS

Cyfarfu'r Pwyllgor ar 4 Tachwedd 2009. Roedd yr Aelodau Pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: Janet Ryder AC, Alun Davies AC, William Graham AC, Mike German AC. Cafwyd ymddiheuriadau gan Joyce Watson AC. Nid oedd unrhyw ddirprwyon.

Mae adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

Offerynnau na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2

Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC342 - Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2009
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 12 Hydref 2009. Fe'u gosodwyd ar 14 Hydref 2009. Yn dod i rym ar 5 Tachwedd 2009

Materion eraill

Mesur Arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch (Cymru)

Ystyriodd yr Aelodau y cyngor cyfreithiol ar ddarpariaethau pwerau dirprwyedig y Mesur Arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch (Cymru) a phenderfynwyd craffu ymhellach ar ddarpariaethau pwerau dirprwyedig y Mesur. Penderfynwyd gwahodd y Gweinidog i'r Pwyllgor i roi tystiolaeth ar ddarpariaethau is-ddeddfwriaeth y Mesur arfaethedig.

Cod Asesiad Effaith Rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer Is-ddeddfwriaeth

Trafododd yr Aelodau y Cod Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Is-ddeddfwriaeth ynghyd â'r Canllawiau perthnasol a roddwyd gan Carwyn Jones AC, y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ. Nododd yr Aelodau gyflwyniad y Cod a chytunwyd i barhau i fonitro ansawdd y wybodaeth a ddarperir mewn Memorandwm Esboniadol a osodir gydag Offerynnau Statudol. Cytunodd yr Aelodau i ystyried y Codau perthnasol a ddefnyddir gan weinyddiaethau eraill.

Mesur Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau)

Trafododd y Pwyllgor Fesur Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau), a gyflwynwyd ar 15 Hydref 2009 ac sy'n Fesur Arfaethedig Comisiwn y Cynulliad (yr aelod sy'n gyfrifol yw'r Arglwydd Dafydd Elis-Thomas). Nododd yr Aelodau nad oedd unrhyw

bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth wedi cael eu cynnwys yn y Mesur arfaethedig ac roeddynt yn fodlon ar hyn.

Gohebiaeth y Pwyllgor: ymateb y Dirprwy Weinidog i lythyr y Cadeirydd ynglŷn ag SLC313 - Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) (Diwygio) 2009

Nododd yr Aelodau ymateb y Dirprwy Weinidog i lythyr y Cadeirydd a chytunwyd i ysgrifennu at y Gweinidog ynghylch yr amserlen ar gyfer cyhoeddi'r rheoliadau diwygiedig. Bydd y Pwyllgor yn ystyried y rheoliadau diwygiedig pan fyddant ar gael.

Eitem 7 ar yr Agenda: Ymchwiliad i'r gwaith craffu ar bwerau dirprwyedig
Yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi), penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod er mwyn trafod y papur cwmpasu ar gyfer yr Ymchwiliad i'r gwaith craffu ar bwerau dirprwyedig

Janet Ryder AC
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

4 Tachwedd 2009